

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 9 Medi 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government**STATWS: GWYBODAETH****CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD****Teitl: Newidiadau i'r brechlyn ar gyfer y rhaglen imiwneiddio HPV****Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol****I'w weithredu gan:**

Arweinwyr Imiwneiddio,
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Nyrsys ysgol, Byrddau/Ymddiriedolaethau
Iechyd
Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau
Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol,
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio,
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd,
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau
Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Pennaeth y Rhaglen Clefydau y gellir eu
Hatal drwy Frechu, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Er gwybodaeth i:

Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu
Sefydliadol
Cyfarwyddwyr Cyllid
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac
Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau
Iechyd
Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymru
Cyfarwyddwr Cynllunio, Uned Gyflawni'r GIG
Meddygon Teulu

Anfonydd: Syr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**Enw(au) cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Y Gyfarwyddiaeth Frechu, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru,

Annwyl Gyfaill,

Mae'r llythyr hwn yn darparu gwybodaeth am newidiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i'r rhaglen imiwneiddio yn erbyn y feirws papiloma dynol (HPV). Anelir y llythyr hwn at weithwyr iechyd proffesiynol sydd yn gyfrifol am gyflawni'r rhaglen. Rwy'n eich annog i rannu'r wybodaeth hon â phawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen frechu HPV genedlaethol yn eich ardal.

Pwyntiau allweddol am y newidiadau i'r rhaglen:

Newidiadau i'r amserlen frechu

Bydd y brechlyn Gardasil®9 yn cael ei ddarparu yn ôl yr amserlenni canlynol ar gyfer y rhaglen HPV:

- amserlen un dos ar gyfer rhaglen arferol y glasoed a'r rhaglen i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion (MSM) cyn eu pen-blwydd yn 25 oed
- amserlen 2 ddos o 25 oed yn y rhaglen MSM
- amserlen 3 dos ar gyfer unigolion sydd â system imiwneidd wan a'r rhai y gwyddys eu bod yn HIV positif

Bydd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU yn parhau i gyflenwi brechlyn ar gyfer y rhaglen HPV yn y ffordd arferol.

Mae'n bwysig nodi nad ydym yn disgwyl i'r amserlen un dos gychwyn cyn y flwyddyn academiaidd 2023/24. Hyd nes y bydd yr amserlen un dos yn cychwyn, bydd yr amserlen 2 ddos gyfredol yn parhau yn ei lle. Cyhoeddir cyfathrebiadau pellach unwaith y bydd penderfyniadau wedi eu gwneud o ran amseriad y newidiadau.

Cymhwysedd

Nid oes unrhyw newid i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y brechlyn hwn. Mae'r newid i un dos yn effeithio ar y rhannau o'r rhaglen HPV ar gyfer y glasoed a'r MSM cyn eu pen-blwydd yn 25 oed yn unig.

Ar gyfer y rhaglen i'r glasoed a leolir mewn ysgolion, bydd angen cyfathrebu'n glir â rhieni a phobl ifanc gymwys, gan gynnwys ar y dystiolaeth o effeithiolrwydd, a bydd angen rhoi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod y broses gydsynio yn effeithiol yn ystod y cyfnod pontio.

Darparwyd cyngor ac arweiniad ar y rhaglen frechu HPV yn ddiweddar yn WHC/2022/15. Tan gyfarwyddyd pellach, bydd y rhaglen yn parhau fel yr arfer.

Hoffwn achub y cyfle hwn eto, i ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled wrth barhau i ddarparu'r rhaglen imiwneiddio HPV yn ystod y cyfnod heriol parhaus hwn i'n gwasanaethau.

Yn gywir,



Syr Frank Atherton

Y Prif Swyddog Meddygol/ Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru